

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

Gofal Deintyddol Bupa, Bwrdd
Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Dyddiad yr arolygiad: 5 Rhagfyr
2017

Dyddiad cyhoeddi: 6 Mawrth 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Y Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	7
	Ansawdd profiad y claf	8
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	12
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	18
4.	Beth nesaf?.....	21
5.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	22
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	23
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith	24
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	25

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol

Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

Darparu sicrwydd:

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Yr hyn a wnaethom

Gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gwblhau arolygiad â rhybudd o Ofal Deintyddol Bupa yn 53 Heol Gaer, Casnewydd NP20 3GY yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 5 Rhagfyr 2017.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r Safonau Iechyd a Gofal (2015), Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011, a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir mwy o fanylion am sut rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod Gofal Deintyddol Bupa yn darparu gofal diogel ac effeithiol ar gyfer ei gleifion.

Roedd y practis yn canolbwyntio ar y claf ac roedd ganddo'r polisiau a'r gweithdrefnau gofynnol ar waith i sicrhau bod y practis a'r staff yn cael eu cefnogi.

Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl ddogfennau sydd wedi'u sganio'n cael eu ffeilio'n gywir.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd dystiolaeth bod rheolwr y practis yn arwain yn dda a bod ganddi gefnogaeth ei rheolwr ardal.
- Roedd y practis yn annog adborth gan gleifion ac yn ei rannu.
- Roedd y practis yn ymgymryd ag archwiliadau yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 ac ar hylendid dwylo, cadw cofnodion meddygol, radiograffau a thriniaethau penodol.

Gwnaethom argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol

- Sicrhau bod gan yr holl staff clinigol y dogfennau sy'n cadarnhau bod ganddynt yr imiwnedd angenrheidiol rhag Hepatitis B.
- Cwblhau'r holl gofnodion meddygol i ddangos bod cleifion wedi derbyn cyngor ar roi'r gorau i ysmegu ac yfed alcohol.
- Trwsio'r ôl traul yn y mannau clinigol.

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Mae Gofal Deintyddol Bupa, Heol Gaer, Casnewydd NP20 3GY yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Casnewydd. Mae'r practis yn rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys tri deintydd, un hylenydd, dwy nyrs ddeintyddol, dwy nyrs dan hyfforddiant, tri aelod o staff y dderbynfa ac un rheolwr practis.

Mae'r practis yn darparu amrediad o wasanaethau deintyddol cyffredinol y GIG a phreifat.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.

Canfuom fod y practis yn ymroddedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion a'i fod yn ceisio adborth sy'n cael ei fwydo'n ôl mewn adroddiadau misol sy'n cael eu harddangos yn y man aros.

Nododd y cleifion hynny a wnaeth sylwadau eu bod yn cael eu trin â pharch wrth ymweld â'r practis a gwelsom staff yn bod yn gwrtais ac yn broffesiynol.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 15 o holiaduron. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Gwasanaeth effeithlon a threfnus iawn"

"Da iawn, dibynadwy ac yn barod i helpu os oes problemau gydag apwyntiadau"

"Mae staff y practis yn gyfeillgar iawn ac mae awyrgylch croesawgar a chynnes bob tro"

Cadw'n iach

Yn y man aros, gwelsom ddetholiad o daflenni gwybodaeth hybu iechyd. Roedd y rhain yn cynnwys taflenni gwybodaeth ynghylch triniaethau a chyngor ataliol. Dywedodd pob un o'r cleifion a lenwodd holiadur fod y tîm deintyddol wedi trafod gyda hwy sut y gallent gadw eu ceg a'u dannedd mewn cyflwr iach.

Gofal ag urddas

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur ei fod wedi cael ei drin â pharch wrth ymweld â'r practis.

Dywedodd staff wrthym fod modd cynnal sgwrs breifat gyda chlaf yn yr ystafell driniaeth os yw ar gael, neu yng nghegin fechan y staff os nad yw ar gael, er eu bod yn ymwybodol na fyddai hyn yn ddelfrydol. Dywedodd rheolwr y practis

wrthym am ei bwriad i droi ardal fechan yng nghefn y practis yn swyddfa a fyddai'n rhoi preifatrwydd i'r cleifion petai angen. Gellid hefyd wneud galwadau ffôn o ystafell driniaeth rydd neu'r gegin fechan gan roi preifatrwydd i'r claf.

Byddai'r drysau i'r ystafelloedd triniaeth ar gau wrth i glaf dderbyn triniaeth, gan roi preifatrwydd ac urddas iddo.

Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur wrthym ei fod yn teimlo'n rhan (gymaint ag y dymunai fod) o unrhyw benderfyniadau a wnaed ynghylch ei driniaeth ddeintyddol. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion hynny eu bod wedi cael gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael.

Dywedodd y rhan fwyaf o gleifion a gwblhaodd holiadur fod cost unrhyw driniaeth yn cael ei hesbonio iddynt bob amser cyn iddynt dderbyn unrhyw driniaeth. Fodd bynnag, dywedodd naw o'r cleifion hynny nad oeddent yn deall sut y cyfrifwyd cost eu triniaeth.

Yn y man aros roedd taflenni'n nodi'r rhestrau prisiau ar gyfer triniaeth ddeintyddol breifat a thriniaeth ddeintyddol y GIG, ond roedd y posteri yn yr ystafelloedd triniaeth ond yn dangos costau triniaeth ddeintyddol y GIG. Rydym yn argymhell bod y practis yn arddangos rhestrau prisiau triniaeth ddeintyddol breifat a'r GIG. Pan soniwyd am hyn gyda rheolwr y practis, cywirodd hyn cyn diwedd yr arolygiad.

Cyfathrebu'n effeithiol

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron a oeddent yn eu hystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg. Roedd dau o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn ystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion ar yr holiadur fod modd iddynt siarad â staff yn iaith eu dewis, gan gynnwys dau glaf a oedd yn eu hystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg. Dim ond un claf a ddywedodd wrthym nad oedd byth yn gallu siarad â'r staff yn iaith ei ddewis.

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom staff yn ymddwyn mewn modd moesgar a chwrtais wrth siarad â chleifion yn bersonol a thros y ffôn.

Gofal amserol

Dywedodd deg o'r pymtheg o gleifion a gwblhaodd holiadur y byddent yn gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys. Roedd manylion am sut gallai cleifion gael mynediad i ofal deintyddol brys pan fo'r practis ar gau yn cael eu harddangos y tu mewn a'r tu allan i'r practis. Roedd yr wybodaeth hefyd yn cael ei darparu ar neges peiriant ateb y practis.

Gwnaeth y practis ymdrechion i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn brydlon. Dywedodd y staff wrthym y byddent yn sicrhau bod cleifion yn cael eu hysbysu pe bai oedi gyda'r deintydd.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Cadarnhaodd pob claf a gwblhaodd holiadur fod y deintydd yn holi am ei hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth.

Hawliau pobl

Roedd y brif fynedfa, y dderbynfa, y man aros a dwy o'r ystafelloedd triniaeth ar yr un lefel a oedd yn golygu eu bod yn hygyrch i gleifion ag anawsterau symudedd. Roedd gris yn arwain at y ddwy ystafell driniaeth arall.

Gwranddo a dysgu o adborth

Dywedodd un ar ddeg o'r pymtheg o gleifion a gwblhaodd holiadur y byddent yn gwybod sut i fynegi pryder neu gwyno am y gwasanaethau maent eu derbyn yn y practis deintyddol.

Mae gan y practis un polisi cwynion ar gyfer triniaeth ddeintyddol breifat a thriniaeth y GIG. Roedd y polisi'n adlewyrchu proses gwyno'r GIG, sef "Gweithio i Wella"¹ ac mewn perthynas â thriniaeth ddeintyddol breifat, roedd yn cyfeirio at AGIC, yr awdurdod cofrestru. Roedd y polisi yn dal i gynnwys

¹ 'Gweithio i Wella' yw'r broses integredig ar gyfer codi pryderon, ymchwilio iddynt, a dysgu ohonynt. Materion a nodir o ddigwyddiadau diogelwch cleifion, cwynion ac, o ran cyrff y GIG yng Nghymru, honiadau am wasanaethau a ddarperir gan gorff cyfrifol yng Nghymru yw pryderon.

gwybodaeth gyswllt ar gyfer Oasis. Yn ddiweddar, mae'r practis wedi dod yn rhan o grŵp Bupa o bractisau deintyddol yng Nghymru a Lloegr. Diwygiodd rheolwr y practis y polisi i adlewyrchu'r manylion cyswllt ar gyfer BUPA yn ystod yr arolygiad.

Roedd y practis yn cynnal ffeil a oedd yn cynnwys cofnodion cwynion a dderbyniwyd ond nid oedd gan bob un fanylion y camau gweithredu a gymerwyd gan y practis a'u canlyniad. Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod cofnodion o'r camau gweithredu a chanlyniadau cwynion bellach yn cael eu storio'n electronig. Gwelsom dystiolaeth o hyn. Roedd y practis yn cofnodi unrhyw bryderon llafar/anffurfiol ar nodiadau'r claf. Argymhellir bod adborth cleifion yn cael ei gadw ar wahân i'w nodiadau meddygol ac rydym yn argymhell bod y practis yn cynnal llyfr nodiadau yn y dderbynfa i gofnodi unrhyw adborth llafar. Ynghyd â'r wybodaeth yn y ffeil gwynion, byddai hyn yn galluogi'r practis i nodi unrhyw themâu ailadroddol. Yn ystod yr arolygiad, gwnaeth rheolwr y practis roi hwn ar waith ac roedd llyfr nodiadau ar gael wrth y ddesg yn y dderbynfa ar gyfer cofnodi adborth llafar.

Roedd gan y practis holiaduron yn y man aros i'r cleifion eu cwblhau. Nid oedd pum o'r pymtheg o gleifion yn ymwybodol o'r holiaduron. Bob mis, gwnaeth rheolwr y practis adolygu'r ymatebion ac arddangos y canfyddiadau yn y man aros.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis atal cofnodi adborth anffurfiol cleifion yng nghofnodion y cleifion a gwneud trefniadau amgen i gofnodi gwybodaeth o'r fath.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth bod y practis yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol i gleifion.

Gwelsom fod y cyfleusterau clinigol yn daclus, yn lân ac wedi'u trefnu'n dda, ond roedd ôl traul i'r dodrefn, a bydd angen rhoi sylw i ymdrin â hyn.

Roedd gan y practis bolisiau diogelu priodol ar waith, ac roedd pob aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion.

Mae angen i'r practis sicrhau bod ei becyn cymorth cyntaf yn cael ei storio mewn bag neu flwch priodol.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Yn gyffredinol, gwelsom fod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld ag ef.

Ymddengys bod yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Roedd peth ôl traul yn yr ystafelloedd triniaeth, gan gynnwys drysau a laminiad coll ar gypyrddau. Mae angen trwsio hyn er mwyn sicrhau glanhau a hylendid trwyadl.

Ni chodwyd unrhyw bryderon gan gleifion a gwblhaodd yr holiadur, ynghylch glendid y practis a gwnaethom sylwi bod holl fannau'r practis yn lân ac yn daclus.

Gwelsom fod profion dyfeisiau cludadwy'n cael eu cynnal yn rheolaidd i helpu i sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn cael eu defnyddio'n ddiogel yn y practis. Gwelsom fod diffoddwyr tân ar gael mewn lleoliadau amrywiol o amgylch yr adeilad a gwnaethom nodi eu bod wedi derbyn gwasanaeth yn ystod y flwyddyn

ddiwethaf i sicrhau bod y cyfarpar yn gweithio'n iawn. Roedd y cyfarwyddiadau ar gyfer yr allanfeydd brys yn weladwy.

Gwelsom fod contractau ar waith ar gyfer trosglwyddo a gwaredu gwastraff peryglus (clinigol), gwastraff nad yw'n beryglus (cartref) a gwastraff amalgam, yn ddiogel.

Dan reoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH), mae'n rhaid i weithwyr naill ai atal neu leihau datguddiad staff i sylweddau sy'n niweidiol i'w hiechyd. Roedd gan y practis restr wirio rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) a dalenni data diogelwch a oedd yn darparu gwybodaeth am sylweddau sy'n 'berylus i'w cyflenwi' a chyfarwyddiadau defnydd diogel mewn perthynas â sylweddau eraill a ddefnyddir yn y practis.

Ar adeg yr arolygiad, nid oedd gan y practis lyfr Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR) oherwydd ei fod ar goll. Rhoddodd rheolwr y practis dystiolaeth bod llyfr newydd wedi cael ei archebu ac yn y cyfamser, roedd wedi argraffu'r canllawiau perthnasol, yr wybodaeth gyswilt a'r ffurflenni i'w cwblhau petai damwain.

Yr hyn y mae angen ei wella

Bydd y practis yn disodli'r drysau a'r laminiad coll ar ddodrefn yr ystafell driniaeth ac yn mynd i'r afael ag unrhyw arwyddion o draul yn yr holl fannau clinigol.

Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis gyfleusterau pwrpasol a phriodol ar gyfer glanhau a sterileiddio (dadheintio) offer deintyddol, yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05².

Nodwyd bod offer yn cael ei gludo rhwng yr ystafelloedd triniaeth a'r ystafell ddadheintio mewn modd priodol mewn cynwysyddion â chlawr nad oeddent yn gallu gollwng a oedd yn cael eu disodli bob tri mis.

² Mae'r ddogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1) yn darparu canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

Gwelsom fod y llyfrau cofnodi priodol ar gyfer gwirio'r cyfarpar dadheintio yn cael eu cynnal, ac roedd polisi dadheintio ar waith. Byddem yn cynghori bod y practis yn darparu canllaw hyfforddiant ar gyfer y broses ddadheintio i gefnogi staff ac unrhyw aelodau newydd o staff a fydd yn ymuno â'r practis yn y dyfodol. Gwelsom dystiolaeth hefyd bod gan yr holl staff clinigol dystysgrifau yn eu ffeiliau i gadarnhau bod eu hyfforddiant ar reoli heintiau yn gyfredol.

Roedd y practis wedi ymgymryd ag archwiliadau rheoli heintiau fel yr argymhellir gan ganllawiau WHTM 01-05.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd gan y practis weithdrefnau ar waith i ymdrin ag argyfyngau cleifion. Ac eithrio tair nyrs ddeintyddol, a fyddai'n mynd ar gwrs cyn diwedd 2017, roedd yr holl staff wedi derbyn hyfforddiant o fewn y flwyddyn ddiwethaf, ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol a sut i gyflawni adfywio cardio-pwlmonaidd. Roedd gan y practis ddau swyddog cymorth cyntaf penodedig a enwyd ac roedd gan y ddau dystysgrifau cymorth cyntaf cyfredol.

Roedd gan y practis y cyffuriau a'r offer dadebru brys priodol yn unol â chanllawiau'r Cyngor Dadebru (y DU)³. Roedd y rhain yn cael eu storio'n ddiogel ond heb fod mewn cynhwysydd mewn cwpwrdd y tu ôl i ddesg y dderbynfâ. Byddem yn argymhell, er rhwyddineb mynediad mewn argyfwng meddygol, eu bod yn cael eu storio gyda'i gilydd, a'u bod yn hawdd eu nodi, mewn bag neu gynhwysydd. Gwnaethom nodi bod gan y practis system ar waith i wirio bod cyffuriau a chyfarpar brys o fewn eu dyddiad ac yn barod i'w defnyddio.

Gwnaethom nodi bod padiau rhagnodi'n cael eu cadw'n ddiogel.

³Sefydlwyd Cyngor Dadebru'r DU i hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, ac i gyfrannu at achub bywydau trwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil, a chydweithredu

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r practis storio'i gyffuriau a'i gyfarpar brys mewn bag neu gynhwysydd priodol fel y gellir cael mynediad iddynt a'u hadnabod yn hawdd ar adeg argyfwng meddygol.

Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Gwelsom fod gan y practis bolisïau a gweithdrefnau ar waith i hyrwyddo ac amddiffyn lles plant ac oedolion agored i niwed a'u bod yn cynnwys y manylion cyswllt ar gyfer yr asiantaethau diogelu perthnasol. Roedd yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed.

Roedd trefniadau ar waith i staff leisio unrhyw bryderon a dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo y gallant wneud hyn yn y practis. Mae pob aelod o staff, ac eithrio tri a oedd yn aros am eu tystysgrifau, yn meddu ar dystysgrifau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom fod yr ystafelloedd triniaeth yn cynnwys offer priodol er diogelwch cleifion a'r timau deintyddol.

Gwelsom fod yr ystafelloedd triniaeth a'r offer radiolegol yn lân iawn ac mewn cyflwr da a bod manau a reolir wedi'u nodi.

Gwelsom ddogfennau'n dangos bod y peiriannau pelydr-X yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd ac er ein bod wedi gweld tystiolaeth o'r arolygiad diweddaraf ym mis Tachwedd, nid oedd y Dystysgrif Gwblhau ar gael ar adeg yr arolygiad. Argymhellwn fod y practis yn sicrhau bod ei gofnodion yn cael eu diweddarau yn unol â'r holl dystysgrifau cyfredol. Roedd y ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd yn cael ei chadw, ond nid oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth hanfodol.

Yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol⁴ ⁵ a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, roedd yr holl ddeintyddion a'r hylenwyr wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis ddarparu tystiolaeth o Dystysgrifau Cwblhau cyfredol sy'n ymwneud â'i gyfarpar ymbelydredd.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Mae cleifion yn elwa ar bractis sy'n ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Gwelsom dystiolaeth o'r practis yn ymgymryd ag archwiliadau yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 ar hylendid dwylo, cadw cofnodion meddygol, radiograffau a thriniaethau penodol, gan gynnwys coronau.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Mae gan y practis gofnodion electronig yn bennaf gyda'r mwyafrif o ddogfennau papur, gan gynnwys hanes meddygol, yn cael eu sganio a'r copïau gwreiddiol yn cael eu dinistrio yn y modd priodol. Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom nodi bod hanes meddygol a oedd wedi cael ei sganio wedi cael ei ffeilio yng nghofnod electronig y claf anghywir a gwnaethom argymhell bod y practis yn rhoi system o wiriadau ar waith i sicrhau nad yw hyn yn digwydd yn y dyfodol. Yr unig gofnodion papur sy'n cael eu cynnal yw ffurflenni datganiadau cleifion a chedwir y rhain mewn cwpwrdd dan glo. Roedd y ffeiliau electronig yn cael eu cadw bob nos.

⁴ Cyngor Deintyddol Cyffredinol – <http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx>

⁵ http://www.legislation.gov.uk/ukxi/2000/1059/pdfs/ukxi_20001059_en.pdf

Roedd gan y practis nifer o bolisiâu priodol ar waith, gan gynnwys polisi diogelwch gwybodaeth gorfforaethol a pholisi llywodraethu gwybodaeth.

Yr hyn y mae angen ei wella

Y practis i roi system o wiriadau ar waith i sicrhau bod y dogfennau sy'n cael eu sganio'n cael eu storio'n gywir.

Cadw cofnodion

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion. Ar y cyfan, canfuom fod y gwaith o gadw cofnodion o ansawdd da, sy'n awgrymu bod cleifion yn derbyn gofal da. Fodd bynnag, gwelsom achosion lle nad oedd darpariaeth cyngor ar atal ysmegu ac yfed alcohol wedi cael ei chofnodi ar gofnodion cleifion.

Yr hyn y mae angen ei wella

Er mwyn cydymffurfio â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion, dylai'r practis sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu cwblhau yn ystod pob ymweliad claf er mwyn cofnodi rhoi cyngor ar atal ysmegu ac yfed alcohol.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.

Canfuom dystiolaeth o arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir. Rheolwr y practis oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd.

Roedd gweithdrefnau rheoli da ar waith er budd y staff, gan gynnwys arfarniadau staff blynyddol a chyfarfodydd staff rheolaidd â chofnodion.

Gwelsom fod amrediad cynhwysfawr o bolisiâu a gweithdrefnau perthnasol ar waith.

Mae angen i'r practis sicrhau bod ei gofnodion staff ynghylch imiwnedd rhag Hepatitis B yn gyfredol.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae Gofal Deintyddol Bupa bellach yn rhan o grŵp Bupa o bractisau deintyddol yng Nghymru a Lloegr. Roedd y gwaith o reoli'r practis o ddydd i ddydd yn cael ei gyflawni gan reolwr y practis â chefnogaeth rheolwr ardal. Canfuom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a bod y staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau. Gwelsom berthynas dda iawn rhwng staff y practis.

Roedd y practis wedi'i drefnu'n dda, a gwaith da'n cael ei gynnal o ran cadw cofnodion yn y rhan fwyaf o feysydd. Gwelsom fod amrediad eang o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith i sicrhau diogelwch staff a chleifion. Gwelsom fod gan bob polisi ddyddiad adolygu a'u bod yn cael eu llofnodi gan yr holl staff i gadarnhau eu bod wedi cael eu darllen ac i ddangos tystiolaeth o wybodaeth a dealltwriaeth. Dylai holl aelodau'r staff wybod eu rôl os bydd argyfwng meddygol. Roedd polisi a gweithdrefn argyfyngau meddygol y practis yn gwyno ac argymhellwn ddiwygio hwn i gynnwys gwybodaeth am rolau a chyfrifoldebau staff pe bai argyfwng.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'i gofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, ac yn meddu ar yswiriant indemniad priodol. Roedd y deintyddion yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwelsom dystysgrifau cofrestru ar gyfer dau ddeintydd yn cael eu harddangos yn glir yn ôl gofyniad Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008. Roedd gan y trydydd deintydd dystysgrif ond nid oedd yn cael ei harddangos. Argymhellwn fod yr holl dystysgrifau cofrestru yn cael eu harddangos.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis ddiwygio'i bolisi a'i weithdrefnau argyfwng meddygol i sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'u rolau petai argyfwng meddygol.

Yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, rhaid i ddeintyddion arddangos eu dystysgrifau cofrestru mewn man amlwg.

Staff ac adnoddau

Gweithlu

Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod y staff wedi mynychu hyfforddiant ar amrediad o bynciau a oedd yn berthnasol i'w rolau ac roedd hyn yn bodloni gofynion datblygiad proffesiynol parhaus. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod un aelod o staff clinigol a oedd heb gwblhau hyfforddiant cyfredol ar adfywio cardio-pwlmonaidd. Dywedwyd wrthym eu bod wedi cofrestru i fynd ar gwrs ym mis Rhagfyr 2017.

Mae'r practis yn cynnal cyfarfodydd staff rheolaidd a chaiff cofnodion manwl eu llunio a'u cylchredeg i'r holl staff.

Dywedodd staff eu bod yn mwynhau gweithio yn y practis a'u bod yn hapus yn ymgymryd â'u rolau. Gwelsom dystiolaeth bod gan y practis raglen ymsefydlu ar gyfer aelodau newydd o staff a bod rhaglen o arfarniadau staff ar waith.

Mae angen imiwneiddio staff clinigol rhag Hepatitis B er mwyn diogelu cleifion a'u hunain rhag heintiau.⁶ Nid oedd y practis yn gallu darparu tystiolaeth o

⁶ Cylchlythyr Iechyd Cymru (2007) 086

imiwnedd o ran cofnodion imiwneddio un deintydd. Rhaid i'r practis gael cadarnhad bod gan yr holl staff clinigol yr imiwnedd angenrheidiol rhag hepatitis B.

Mae'r Rheoliadau ar gyfer Deintyddiaeth Breifat yn ei gwneud yn ofynnol i bob deintydd sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yng Nghymru feddu ar dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gyflwynwyd yn ystod y tair blynedd ddiwethaf. Gwelsom dystiolaeth bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi cael eu cynnal ar yr holl ddeintyddion, y nyrsys deintyddol, y nyrsys dan hyfforddiant ac un aelod o staff y dderbynfa. Gwnaethom nodi bod ceisiadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi cael eu cyflwyno ar gyfer y ddau aelod arall o staff y dderbynfa.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis gael cadarnhad bod gan yr holl staff clinigol yr imiwnedd angenrheidiol rhag hepatitis B.

4. Beth nesaf?

Lle'r ydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith gan ddweud wrthym am y camau brys mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Mae arolygiadau deintyddol fel arfer yn rhai lle rhoddir rhybudd. Mae practisau deintyddol yn derbyn o leiaf 12 wythnos o rybudd ymlaen llaw ynglŷn ag arolygiad. Mae hyn er mwyn rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn amharu ar gleifion cyn lleied ag y bo modd.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut mae practisau deintyddol yn bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2008](#) a [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) \(Diwygio\) 2011](#). Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999](#), [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio \(Datguddio Meddygol\) 2000](#), ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis 'Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir gwybodaeth bellach am sut mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatrwyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Gwelsom fod rhestrï prisiau a oedd yn nodi costau triniaethau deintyddol y GIG yn cael eu harddangos yn yr ystafelloedd triniaeth ond nid oedd rhestrau prisiau'n nodi costau triniaeth ddeintyddol breifat.	Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod rhestrï prisiau'n cael eu harddangos, gan gynnwys rhestr o eitemau sylfaenol a darparu gwybodaeth glir am brisiau. Ni ddylai cleifion orfod gofyn am y wybodaeth hon	Tynnwyd sylw rheolwr y practis at hyn	Gwnaeth rheolwr y practis ddatrys y broblem hon ar unwaith gan arddangos rhestrï prisiau ynghylch gofal deintyddol preifat yn yr holl ystafelloedd triniaeth.
Nid oedd polisi a gweithdrefnau cwynion y practis sy'n ymwneud â thriniaeth ddeintyddol breifat a thriniaeth ddeintyddol y GIG yn cynnwys y manylion cywir ar gyfer y cwmni rheoli, sef BUPA.	Mae'n bosibl na fydd cleifion yn gallu atgyfeirio pryder neu gŵyn at y cwmni rheoli cywir.	Cafodd rheolwr y practis wybod am y camgymeriad hwn yn ystod yr arolygiad.	Gwnaeth rheolwr y practis ddiwygio'r polisi i adlewyrchu manylion cyswllt BUPA yn ystod yr arolygiad.

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Gofal Deintyddol Bupa

Dyddiad yr arolygiad: 5 Rhagfyr 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw broblemau sicrwydd ar unwaith.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Gofal Deintyddol Bupa

Dyddiad yr arolygiad: 5 Rhagfyr 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Dylai'r practis roi'r gorau i gofnodi adborth anffurfiol cleifion mewn cofnodion cleifion a gwneud trefniadau eraill i gofnodi gwybodaeth o'r fath.	6.3 Gwrandao a dysgu o adborth	Mae gennym lyfr 'sylwadau' sydd ar gael yn y dderbynfa i'r staff a'r cleifion gofnodi unrhyw adborth.	Toni-Marie Burrows	Cafodd hyn ei gwblhau ar ddiwrnod yr arolygiad.
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol				
Dylai'r practis ddisodli drysau a laminiad sydd ar goll ar ddodrefn yr ystafell driniaeth a mynd i'r afael ag unrhyw arwyddion o ôl traul yn yr holl fannau clinigol.	2.1 Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch	Rydym wedi cael tri dyfynbris gan gyflenwyr gwahanol.	Toni-Marie Burrows	I'w gwblhau erbyn diwedd mis Chwefror

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dylai'r practis storio ei gyffuriau a'i gyfarpar brys mewn bag neu gynhwysydd priodol fel y glir cael gafael arnynt a'u hadnabod yn hawdd os oes argyfwng meddygol.	2.6 Rheoli Meddyginiaethau	Bellach mae gennym gynhwysydd plastig mawr â phopeth ynddo.	Toni-Marie Burrows	Cwblhawyd ar 6 Rhagfyr 2017.
Dylai'r practis ddarparu tystiolaeth o Dystysgrifau Cwblhau cyfredol mewn perthynas â'i gyfarpar ymbelydredd.	2.8 Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol	Gwasanaethwyd yr holl unedau ar 30 Tachwedd 2017. Rydym bellach wedi derbyn y dystysgrifau. Cawsant eu hanfon i'r practis ar 8 Rhagfyr 2017.	Toni-Marie Burrows	Cwblhawyd ar 8 Rhagfyr 2017
Rhoddodd y practis system wiriadau ar waith i sicrhau bod dogfennau sydd wedi'u sganio yn cael eu ffeilio'n gywir.	3.4 Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg gyfathrebu	Hysbyswyd yr holl staff sy'n sganio cofnodion cleifion am hyn, ac maent bellach yn gwirio dwywaith bod yr holl ddogfennau'n cael eu sganio i'r cofnodion cywir.	Toni-Marie Burrows	Ar unwaith
Er mwyn cydymffurfio â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion, dylai'r practis sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu cwblhau yn ystod pob ymweliad claf er mwyn cofnodi rhoi cyngor ar atal ysmygu ac yfed alcohol.	3.5 Cadw cofnodion	Mae'r holl glinigwyr wedi cael gwybod am hyn ac rwyf wedi gwirio fy hun a gallaf gadarnhau eu bod bellach yn gwneud hyn gyda'u cleifion.	Clinigwyr	Ar unwaith
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Dylai'r practis ddiwygio'i bolisi a'i weithdrefnau	Llywodraethu,	Rwyf wedi rhoi adborth i'r brif swyddfa	Prif	2 Ionawr

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
meddygol brys i sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'u rolau petai argyfwng meddygol.	arweinyddiaeth ac atebolrwydd	bod yr AGIC wedi argymhell 'y dylai'r practis ddiwygio'i bolisi a'i weithdrefnau argyfwng meddygol i sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'u rolau mewn argyfwng meddygol'. Wrth aros am ymateb, rwyf wedi rhoi dalen ychwanegol ar waith i gyd-fynd â'r polisi argyfyngau meddygol sy'n nodi rolau'r staff mewn argyfwng.	Swyddfa/Toni-Marie Burrows	2018
Yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, mae'n rhaid i ddeintyddion arddangos eu tystysgrifau cofrestru mewn man amlwg.		Mae'r un dystysgrif a oedd ar goll wedi cael ei harddangos yn yr ystafell driniaeth.	Toni-Marie Burrows	Cwblhawyd ar 6 Rhagfyr 2017.
Rhaid i'r practis gael cadarnhad bod gan yr holl staff clinigol yr imiwnedd angenrheidiol rhag hepatitis B.	7.1 Gweithlu	Mae'r aelodau o staff wrthi'n aros i dderbyn y cofnodion hyn gan eu meddygon.	Toni-Marie Burrows	31 Ionawr 2018.

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Tudalen 27 o 28

Enw (llythrennau bras): Toni-Marie Burrows

Swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 12 Ionawr 2018